Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU — Funded by UK Government

CONWY — CYNGOR BWRDEISTREF SIROL / COUNTY BOROUGH COUNCIL

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY
# CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU 2022/2025
# GRANTIAU A DDYFARNWYD

Prosiectau yng Nghonwy a ariannwyd yn llawn neu'n rhannol gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

**Blaenoriaeth Buddsoddi: Pobl a Sgiliau a Lluosi (rhifedd oedolion)**

| **Prosiect** | **Sefydliad** | **Crynodeb o'r Prosiect** | **Dyfarniad** |
|---|---|---|---|
| Gweithio'n Iach | Strategaeth Dinas y Rhyl | Cefnogi pobl gydag anghenion iechyd meddwl i ganfod a chadw cyflogaeth.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £175,761.61 |
| Trawsnewid Meddyliau Ifanc - I2EM | Cynllun Addysg Beirianneg Cymru | Cyflwynwyd gweithgareddau mewn ysgolion yng Nghonwy i roi cyfle i bobl ifanc ddatblygu sgiliau newydd yn ymwneud â gwaith a rhoi gwybodaeth am lwybrau gyrfa yn y sector Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg yng Ngogledd Cymru.<br><br>Roedd y prosiect yn cynnwys ystod o weithdai mewn ysgolion oedd yn canolbwyntio ar sgiliau digidol megis codio ac argraffu 3D, dylunio ac electroneg a phrosiectau â themâu cynaliadwyedd, yn ogystal â digwyddiadau i bartneriaid mewn diwydiant i annog merched i'r maes Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £57,488.72 |
| Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - darparwyd gan sefydliadau amrywiol | Darparodd y Gronfa Allweddol grantiau i alluogi dosbarthu cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar gyfer prosiectau llai i ymdrin ag anghenion a nodwyd yn lleol. | £893,024.55 |

| Prosiect | Sefydliad | Crynodeb o'r Prosiect | Dyfarniad |
|---|---|---|---|
| | | Cefnogwyd sefydliadau i ddarparu prosiectau'n cefnogi sgiliau a hyfforddiant hanfodol er mwyn datblygu sgiliau preswylwyr Conwy a rhoi hwb i'w hyder gyda rhifedd. Roedd y prosiectau'n cynnwys mynediad at leoliadau gwaith â thâl, datblygu sgiliau cyffredinol, hyfforddiant a chymwysterau i gefnogi gyrfaoedd yn y dyfodol. Roedd nifer o'r prosiectau hyn yn cefnogi'r rhai anoddaf eu cyrraedd, gyda'r nod o wella hyder a sgiliau a darparu cefnogaeth cyn cyflogaeth.<br><br>Dyfarnwyd cyllid i 11 o brosiectau yng Nghonwy. | |
| TRAC | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Mae prosiect lles TRAC yn darparu cefnogaeth werthfawr i bobl ifanc 11-16 oed sydd mewn perygl o fod yn NEET (Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) pan fyddant yn gadael yr ysgol.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £1,222,451.50 |
| Planhigfa a Siop Bron y Nant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Darparwyd cyfleoedd i weithio a datblygu sgiliau ar gyfer pobl ag anableddau drwy'r model cyflogaeth â chymorth.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £882,684.00 |
| Llwybrau i Gyflogaeth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Darparwyd ystod o gyrsiau hyfforddi llwybrau sy'n cynnwys cymwysterau achrededig penodol i sector, sgiliau cyflogadwyedd a lleoliadau gwaith mewn sectorau o flaenoriaeth a thwf yng Nghonwy. | £461,795.85 |

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU | Funded by UK Government

| Prosiect | Sefydliad | Crynodeb o'r Prosiect | Dyfarniad |
|---|---|---|---|
| | | Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | |
| Gofal Plant Ar Waith | NDNA Cymru | Cynigiwyd rhaglen waith 16 wythnos o hyfforddiant a lleoliadau gwaith â thâl fel bod cyfranogwyr yn gallu dechrau eu gyrfaoedd mewn gofal plant ac addysg gynnar fel Cymorthyddion Meithrinfa dan Hyfforddiant.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £76,327.36 |
| Working Sense | Y Ganolfan Arwyddo Golwg Sain | Cefnogi sgiliau cyflogadwyedd pobl dros 25 â nam ar y synhwyrau neu anableddau, drwy ddarparu cymorth arbenigol i alluogi'r grŵp targed i sicrhau cyflogaeth neu ddychwelyd iddo, ac aros mewn gwaith, neu symud yn nes at fedru gweithio, gan ddefnyddio dull holistig un-i-un sy'n defnyddio Ymgynghorwyr Cyflogaeth a Gweithwyr Cefnogi.<br><br>Darparwyd y prosiect mewn mwy nag un sir yng Ngogledd Cymru.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 yng Nghonwy drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £142,210.27 |
| Cynllun Braenaru'r Rhwydwaith TALENT Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | Gosod y seiliau ar gyfer sefydlu TALENT Twristiaeth (Bargen Dwf Gogledd Cymru) er mwyn mynd i'r afael â phroblemau recriwtio, herio canfyddiadau negyddol a hyrwyddo cyfleoedd am yrfaoedd yn y sector twristiaeth.<br><br>Roedd y prosiect yn targedu pobl ifanc.<br><br>Darparwyd y prosiect mewn mwy nag un sir yng Ngogledd Cymru. | £96,250.00 |

| Prosiect | Sefydliad | Crynodeb o'r Prosiect | Dyfarniad |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Rhifedd am Oes | Grŵp Llandrillo Menai | Hyrwyddo rhifedd oedolion mewn ystod eang o leoliadau cymunedol a gwaith i gefnogi pobl yng Nghonwy wella eu sgiliau rhifedd mewn cyd-destun sy'n berthnasol iddynt. Gweithiodd y prosiect gyda sefydliadau trydydd sector, cyflogwyr, ysgolion lleol a grwpiau cymunedol i ymgysylltu ag unigolion fyddai'n elwa o gefnogaeth o'r fath.<br><br>Darparwyd y prosiect hwn mewn mwy nag un sir yng Ngogledd Cymru. | £1,067,130.32 |
| Camau Cefnogol | Grŵp Llandrillo Menai | Cynnig pecyn wedi'i deilwra o gefnogaeth mentora i rai rhwng 16-25 oed sy'n pontio i Addysg Bellach a chynnig gwasanaeth iechyd meddwl a lles estynedig, yn cefnogi eu taith ddysgu drwy'r coleg ac i gyflogaeth bosibl.<br><br>Darparwyd y prosiect hwn mewn mwy nag un sir yng Ngogledd Cymru.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 yng Nghonwy drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £805,504.27 |
| Sgiliau Cyflogwyr Gogledd Cymru | Grŵp Llandrillo Menai | Cefnogi cyflogwyr i adnabod a bodloni anghenion hyfforddiant a bylchau o ran sgiliau i gyflawni twf yn y dyfodol ac amcanion strategol o fewn eu busnes.<br><br>Darparwyd y prosiect hwn mewn mwy nag un sir yng Ngogledd Cymru. | £310,530.66 |

## Blaenoriaeth Buddsoddi: Cymunedau a Lle

| Teitl y Prosiect | Sefydliad | Crynodeb o'r Prosiect | Dyfarniad |
|---|---|---|---|
| Cronfa Allweddol | Cyngor Bwrdeistref Sirol | Darparodd y Gronfa Allweddol grantiau i alluogi dosbarthu cyllid Cronfa Ffyniant | £5,127,485.00 |

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU | Funded by UK Government

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| Teitl y Prosiect | Sefydliad | Crynodeb o'r Prosiect | Dyfarniad |
|---|---|---|---|
| Adfywio Cymunedol | Conwy - darparwyd gan sefydliadau amrywiol | Gyffredin y DU ar gyfer prosiectau cymunedol llai i ymdrin ag anghenion a nodwyd yn lleol.<br><br>Cefnogodd Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Conwy Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Conwy adfywiad ein cymunedau lleol drwy helpu'r grwpiau, y sefydliadau cyhoeddus a'r mentrau lleol hyn i arwain wrth wella eu hardaloedd lleol yn amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Dyfarnwyd cyllid i 70 o brosiectau yng Nghonwy i gefnogi adfywiad ein hardaloedd a chymunedau lleol.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | |
| Cronfa Allweddol Cynyddu Gallu Sector Gwirfoddol Conwy | Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy - darperir gan sefydliadau amrywiol | Prosiect Cynyddu Gallu i gefnogi grwpiau trydydd sector lleol i adfer a datblygu yn y dyfodol. Roedd y prosiect yn cynnwys Cronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol a Rhaglen Hyfforddi Cynyddu Gallu.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £1,061,200.00 |
| Tanio'r Fflam | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Ariannodd y prosiect hwn y cynlluniau cyflawni ar gyfer Creu Conwy - Tanio'r Fflam, Strategaeth Ddiwylliannol i Fwrdeistref Sirol Conwy 2021-2028 a Strategaeth Wybodaeth a Llyfrgelloedd Conwy 2021-2026. Darparodd y ddwy strategaeth ddiwylliannol allweddol hyn ystod o brosiectau trawsnewidiol yn cynnwys rhaglen ddiwylliannol i'r sir gyfan i gefnogi lles ac adfywiad economaidd ar ôl Covid a model ar gyfer llyfrgelloedd fel canolbwynt cymunedol sy'n darparu | £1,325,917.20 |

| Teitl y Prosiect | Sefydliad | Crynodeb o'r Prosiect | Dyfarniad |
|---|---|---|---|
| | | amrediad eang o wasanaethau a gweithgareddau.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | |
| Rhaglen Cyfiawnder mewn Diwrnod | Ymddiriedolaeth Heddlu a Chymuned Gogledd Cymru | Prosiect unigryw oedd yn defnyddio actorion proffesiynol a phartneriaid i archwilio materion allweddol am y system gyfiawnder droseddol a phobl ifanc. | £50,368.56 |
| Gwelliannau Llandudno | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Gosod llochesi ac arwyddion newydd ar bromenâd Traeth y Gogledd yn Llandudno.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £363,713.46 |
| Datblygiad Lleol dan Arweiniad y Gymuned Conwy | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Roedd y prosiect hwn yn grymuso unigolion, grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol. Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau anstatudol, diogelu treftadaeth leol, trechu'r argyfyngau costau byw/newid yn yr hinsawdd a sicrhau mynediad digidol (ffisegol a thrwy sgiliau cymunedol). | £420,012.23 |
| Datblygu Talent a Chefnogaeth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Roedd y prosiect hwn yn cefnogi pobl yng Nghonwy i gymryd rhan mewn chwaraeon a datblygu. Roedd y gweithgareddau yn cynnwys hyfforddiant a grantiau i gefnogi addysg grefyddol a'r celfyddydau.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £261,263.63 |

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU | Funded by UK Government

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| Teitl y Prosiect | Sefydliad | Crynodeb o'r Prosiect | Dyfarniad |
|---|---|---|---|
| Ymgysylltu â Chwaraeon a Gweithgareddau Iau Ffit Conwy | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Roedd y prosiect hwn yn cefnogi rhai rhwng 11-15 oed wneud mwy o ymarfer corff a datblygu gwytnwch corfforol ac iechyd meddwl. Roedd hefyd yn canolbwyntio ar weithgareddau i annog mwy o enethod i gymryd rhan.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £999,840.73 |
| Datblygu Rhaglen Dysgu Nofio | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Roedd y prosiect hwn yn darparu buddsoddiad i foderneiddio'r ddarpariaeth nofio yn y sir.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £1,113,695.85 |
| Mannau Agored Gwell drwy Deledu Cylch Caeëdig | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Gwella'r gwasanaeth Teledu Cylch Caeëdig presennol drwy ddarparu camerâu symudol ychwanegol i wella a gwarchod amwynderau ffisegol, isadeiledd cymunedol a mannau agored a gweithio gyda chymunedau i gynyddu a chefnogi gwytnwch cymdeithasol, mesurau gwarchod yr amgylchedd ac addysg.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £498,565.86 |
| Caru Cymru | Cadwch Gymru'n Daclus | Darparu ystod o weithgareddau i greu a chefnogi nifer o rolau gwirfoddoli a chyfleoedd cymunedol.<br><br>Darparwyd y prosiect hwn mewn mwy nag un sir yng Ngogledd Cymru. | £95,500.96 |
| Lleoedd Newid – Newid Bywydau | MENCAP | Astudiaeth dichonolrwydd ac ymgynghoriad ar leoliadau addas ar gyfer cyfleusterau lleoedd newid. | *£13,385.62* |

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU | Funded by UK Government

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| **Teitl y Prosiect** | **Sefydliad** | **Crynodeb o'r Prosiect** | **Dyfarniad** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Prosiect Lles Cymunedol Conwy | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Helpu pobl i gynnal a gwella eu lles drwy leihau unigrwydd a chryfhau cysylltiadau yn y gymuned leol drwy weithgareddau a chyfleoedd i wirfoddoli'n lleol.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £577,738.00 |
| Gwella Pyllau Padlo Conwy | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Gwaith ailwampio hanfodol i byllau padlo Llanfairfechan, Penmaenmawr, Craig y Don a Llandrillo-yn-Rhos. | £535,684.98 |

## Blaenoriaeth Buddsoddi: Cefnogi Busnesau Lleol

| **Teitl y Prosiect** | **Sefydliad arweiniol** | **Crynodeb o'r Prosiect** | **Dyfarniad** |
|---|---|---|---|
| Academi Ddigidol Werdd Conwy | Grŵp Llandrillo Menai | Darparodd gymorth gwerthuso a mentora i fusnesau bach a chanolig i wella eu galluoedd digidol a sero net, gan gefnogi busnesau i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant a lleihau carbon a chostau. | £383,500.00 |
| Cyfleoedd Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru | Uchelgais Gogledd Cymru | Darparodd weithgareddau a mentrau i breswylwyr, busnesau a chymunedau ar hyd a lled Gogledd Cymru gan fuddsoddiadau oedd yn cyd-fynd â'r Weledigaeth Dwf yn cynnwys Bargen Dwf Gogledd Cymru - ffrydiau gwaith allweddol o gydweithio rhanbarthol, sgiliau, digidol, ynni a sero net, a buddion a gwerth cymdeithasol.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £211,542.69 |

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU | Funded by UK Government

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| Teitl y Prosiect | Sefydliad arweiniol | Crynodeb o'r Prosiect | Dyfarniad |
|---|---|---|---|
| Cronfa Allweddol Cefnogi Busnesau Lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Cefnogodd ein busnesau masnachol a chymdeithasol lleol i adnewyddu a datblygu i'r dyfodol gan alluogi grantiau i gefnogi twf economaidd a chynaliadwyedd.<br>Cefnogwyd 82 o fusnesau yng Nghonwy.<br><br>Darparodd y Gronfa Allweddol grantiau i alluogi dosbarthu cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU i fusnesau'n lleol.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £2,908,331.88 |
| Gwella a Diogelu'r Economi Ymwelwyr ar gyfer y Dyfodol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Cyflawnodd y prosiect nifer o ymyraethau a helpodd i wella'r economi ymwelwyr yn sir Conwy.  Yn cynnwys cyfleoedd rhwydweithio, datblygu Rhaglen Llysgennad Twristiaeth Conwy, datblygu llwybrau lleol ac ymgyrch dwristiaeth y gaeaf i sefydlu Sir Conwy fel cyrchfan gwyliau drwy'r flwyddyn gron.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn parhau yn 2025/26 drwy gyllid pontio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. | £293,214.96 |
| Rhwydwaith Sero Net Gogledd Cymru | Cyngor Busnes Gogledd Cymru, Mersi a'r Ddyfrdwy | Darparu gweithgareddau'n seiliedig ar Rwydwaith Sero Net Gogledd Cymru, gan alluogi, cefnogi ac arwain y Sector Preifat  a Sefydliadau Nid er Elw ar draws pob sector ar dwf busnes, pan fyddant ar y daith tuag at Sero Net.<br><br>Darparwyd y prosiect hwn mewn mwy nag un sir yng Ngogledd Cymru. | £36,254.51 |